

CYNGOR CYMUNED TREF ALAW

Porfa Las, Llanddeusant, LL65 4AD
01407 730172

Cyfarfod o'r Cyngor Nos Fawrth, 10 Tachwedd 2015 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant.

Yn bresennol Cadeirydd Owain Owen, Glyn Hughes, Trefor Jones, Ffion Roberts, Is-Cadeirydd Ifan Rowlands, Hugh Williams, Cyngorydd Llinos Medi Huws (Talybolion)

Ymddiheuriadau Peredur Hughes, Arthur Jones, Geraint Owen, Iona Phillips, John T Rowlands

Ychwanegol

1 Cofnodion cyfarfod Hydref 2015

Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion cyfarfod Hydref 2015 gyda Ffion Roberts yn cynnig a Hugh Williams yn eilio.

2 Datgan diddordeb

Is-Cadeirydd Ifan Rowlands, ar gyfer eitem 4.1 – Cais cynllunio Cae Bach.

3 Materion â codwyd

3.1 *Neuadd Bentref Llanddeusant*

Trafodwyd natur y Pwyllgor newydd a phenderfynwyd cynnwys rhai aelodau o'r Cyngor Cymuned, rhai o'r pwyllgor gwreiddiol ac aelodau ifanc, brwdfrydig yr ardal.

Angen ail wynebu'r maes parcio ar frys ar gyfer digwyddiadau'r Nadolig yn y Neuadd. Penderfynwyd bu Glyn Hughes yn ei wneud a bu Cronfa Melinau Tref Alaw yn talu'r gost fel rhan o beth maent wedi cytuno cefnogi'r Neuadd yn barod. Ysgrifennu at drigolion Pendref a Bryn Idan i roi cyfle iddynt symud eu pethau allan o'r maes parcio.

3.2 *Cymorth Cynllunio Cymru – gweithdy hyfforddiant*

Roedd y Clerc wedi bod i'r sesiwn hyfforddiant yma ac wedi dysgu dipyn yna.

4 Ceisiadau Cynllunio

4.1 47C145 – Cais i bennu a oes angen caniatad blaenorol ar gyfer sied amaethyddol ar gyfer storio peiriannau yn / Application to determine whether prior approval is required for the erection of an agricultural shed for the storage of implements at : *Cae Bach, Llanddeusant*

Clerc wedi ebstio i ddweud nad oedd wrthwynebiad.

4.2 47C207C/MIN – Mân newidiadau i gynllun sydd wedi ei ganiatâu yn flaenorol o dan caniatâd cynllunio 47C207B/DA yn / Minor amendments to scheme previously approved under planning permission 47C207B/DA at : *Maes Banadl, Llanddeusant*

Nodwyd.

4.3 47C144A/LB – Cais Adailad Rhestredig i addasu eglwys yn annedd ynghyd â gosod pecyn trin carthion a newid defnydd rhan o'r cae amaethyddol cyfagos i greu gardd a lle parcio yn / Listed Building Consent for the conversion of the church into a dwelling together with the installation of a package treatment plant and the change of use of part of the adjoining agricultural field to create a garden area and parking at : *St Cynfarwy's Church, Llechcynfarwy*

Dim gwrthwynebiad i'r cais.

5 Mabwysiadu Dogfennau Swyddogol

5.1 Model Standing Orders : newidiadau wedi bod

5.2 Model Financial Regulations / Model Reoliadau Ariannol : newidiadau wedi bod

5.3 Assesiad Risc / Risk Assessment

Derbynwyd y Dogfennau fel y tablwyd.

CYNGOR CYMUNED TREF ALAW

6 Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn – Awst 2017

Roedd llythyr eithaf unbenaethol wedi dod oddi wrth bwyllgor Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017 yn dweud eu bod nhw'n disgwyl i ardal Mechell a Thref Alaw codi hyd at £12,500 ar gyfer y 'Steddfod. Yn ogystal, deallwyd y bod cyfarfod yn cymered lle yn Llanfechell y noson honno ond nad oedd wybodaeth wedi cael ei dosbarthu i Dref Alaw.

Gan wybod bydd Ysgol y Llannau yn cael ei agor yn ystod 2017, teimlad y Cyngor oedd bydd hyn yng nghyfle da ymuno a Chylch y Garn i gydweithio i greu cymuned i'r Ysgol a chodi arian tuag at yr Eisteddfod.

Penderfynwyd bu'r Clerc yn holi a fydd hi'n yn ddymunol gyda'r Pwyllgor a'r pwyllgorau ardal.

7 **Ramblers Cymru : Ydych chi eisiau gwarchod a gwella'r mannau lle mae pobl yn cerdded yn eich ardal chi?**

Penderfynu holi Arwel Evans yn CSYM a chynnig gyrru planiau os bu'n addas.

8 **Unrhyw fater arall**

8.1 *Ysgol y Llannau*

Llythyr wedi ei dderbyn yn cadarnhau bu Ysgol y Llannau yn cael ei adeiladu yn Llanfaethlu ag i'w agor yn Chwefror 2017. Nad oedd sôn am ardal hen Ysgol Llanddeusant yn y llythyr ond bu Cyng. Llinos Medi Huws yn dilyn fynnu ar hyn.

8.2 *Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn*

Dwy sedd wag yn dod i fynnu. Un Llais Cymru i gadeirio cyfarfod er mwyn dewis y ddau ymgeisydd. Cefnogwyd CCTA Cynghorydd John Roberts a Chynghorydd Meirion Parry.